Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Canfyddiadau'r arolwg

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Mai 2023

Fel rhan o waith craffu Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (y Bil), cynhaliwyd arolwg i gasglu barn pobl ledled Cymru.

## Yr arolwg

**1.** Roedd arolwg safonedig a strwythuredig, y gallai cyfranogwyr ei lenwi eu hunain, ar agor am tua chwe wythnos rhwng dydd Llun 3 Ebrill a dydd Llun 8 Mai 2023. Roedd yr arolwg ar gael i'w lenwi ar-lein.

**2.** Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo drwy nifer o sianeli, gan gynnwys sianeli'r Senedd ar y cyfryngau cymdeithasol.


**3.** Roedd yr arolwg yn gofyn pum cwestiwn am y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Rhoddwyd rhywfaint o wybodaeth i'r ymatebwyr am yr hyn y bydd y darpariaethau hyn ei wneud a'r gyfraith bresennol o ran cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd.

**4.** Roedd yr arolwg hwn yn gyfle i bobl ar hyd a lled Cymru roi eu barn am rai o brif ddarpariaethau'r Bil.


# 1. Canfyddiadau

**5.** Daeth 2,239 o ymatebion i law.

**6.** Cafwyd ymatebion o bob awdurdod lleol, gyda'r nifer fwyaf o ymatebion yn dod o Gaerdydd a Rhondda Cynon Taf.





**7.** O'r 2239 o bobl a gymerodd ran yn yr arolwg, **roedd 92% yn anghytuno y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau ehangach i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd i fynd i'r afael â llygredd aer o amgylch cefnffyrdd.** Roedd 85% o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf.




**8.** Roedd 93% o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn hanfodol y dylai Llywodraeth Cymru orfod ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd, a dywedodd 4% yn rhagor o'r ymatebwyr ei fod yn bwysig.


**9.** Dywedodd 1% o'r ymatebwyr nad yw'n bwysig i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.




**10.** Dywedodd 92% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd o ran egwyddor.

**11.** Roedd gweddill yr ymatebion yn gyfartal o ran y darpariaethau yn y Bil i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd, gyda 2% yn eu cefnogi i raddau, 2% yn dweud nad oeddent yn eu cefnogi nac yn eu gwrthwynebu, 2% yn eu cefnogi, a 2% yn eu cefnogi'n gryf.

**12.** Roedd 61% o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai Llywodraeth Cymru orfod defnyddio'r cyllid a gynhyrchir gan gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd, a gyflwynwyd i leihau llygredd aer, i ariannu polisïau i leihau llygredd aer. Roedd yr ymatebion yn fwy cyfartal ar draws yr opsiynau gwahanol.




**13.** Gwahoddwyd yr ymatebwyr i esbonio eu barn am y Bil. Rhoddodd 1,866 o ymatebwyr eu barn am y Bil. O'r rhai a rannodd eu barn, roedd 93% yn erbyn y Bil a 6% o blaid y Bil.

**14.** Roedd y rhai a oedd o blaid y Bil yn teimlo bod angen y Bil, o ran egwyddor, i wella ansawdd aer.

> 'O safbwynt llygredd aer a newid yn yr hinsawdd rwy'n cytuno'n gryf â'r syniad. Ond rhaid cynnig dewis arall er mwyn sicrhau mynediad. Efallai fod angen cynnal treial mewn ardal lygredig iawn.'
>
> 'Rwy'n credu ei bod yn hanfodol bwysig bod llywodraethau yn deall yr her hon i wella ansawdd aer nawr, er mwyn diogelu iechyd pobl sy'n byw mewn dinasoedd a ger ffyrdd

mawr. Rwyf wedi nodi yn yr arolwg fy mod yn credu ei bod yn hanfodol ymgynghori â'r cyhoedd, ond rwyf hefyd o’r farn y dylid trin canlyniad ymgynghoriad o'r fath fel cyngor yn unig.’

**15.** Fodd bynnag, roedd mwyafrif llethol y sylwadau gan ymatebwyr yn amlwg yn erbyn y Bil. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ddig am effaith ariannol bosibl y Bil ar gostau byw pobl a'r pwysau ariannol posibl y gallai'r Bil ei roi ar y cyhoedd sy'n gweithio.

‘Mae’n syniad hollol wallgof codi tâl ar bobl i ddefnyddio’r ffyrdd sydd wedi'u cynllunio i dynnu traffig oddi ar y ffyrdd llai, pan ydych chi’n gwneud i bobl yrru ar ffyrdd llai mewn gwirionedd. Nid yw pobl Cymru eisiau hyn na'r gostyngiadau arfaethedig i derfynau cyflymder. Mae'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn y cymoedd yn annibendod llwyr. Mae'r syniad hwn yn rhoi treth ar rai o'r bobl dlotaf yn Ewrop. Rwy'n byw yn Nhredegar ond yn gweithio ym Mrynbuga, sy’n daith o bedwar bws bob ffordd – eglurwch sut mae hynny'n ymarferol.’

‘Gyda phrisiau tanwydd yn dal i fod yn uchel, byddai cyflwyno'r Bil hwn yn niweidiol iawn i bobl sydd angen teithio i'w swyddi bob dydd. Bydd hefyd yn gorfodi llawer o bobl oddi ar y ffordd gan ei bod yn gostus iawn cadw car. Cyn hyd yn oed gyflwyno Bil fel hyn, byddwn yn awgrymu eich bod yn canolbwyntio ar sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cyrraedd safon dderbyniol yn gyntaf. Fel enghraifft yn fy nghymuned leol, maen nhw'n atal pob gwasanaeth bws ym mis Mehefin. Mae'n rhaid i mi deithio 27 milltir y dydd i’r gwaith, felly pe bawn i'n cael fy ngorfodi oddi ar y ffordd oherwydd y costau ychwanegol hyn byddai'n rhaid i mi roi'r gorau i'm swydd.’

‘Mae codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn syniad sydd wedi cael ei gynnig ers tro gan nifer gymharol fach o ymgyrchwyr a chynllunwyr ond sydd heb lawer o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd. Dylid parchu dewis unigol, yn hytrach na cheisio gorfodi pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sy’n araf ac yn annibynadwy, drwy fynd ati i wneud modura yn ddrytach ac yn llai cyfleus. Mae cyllidebau aelwydydd eisoes dan bwysau oherwydd chwyddiant a dirwasgiad, a bydd codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn achosi caledi i fodurwyr incwm isel yn anghymesur, gan eu gorfodi i wneud dewisiadau anodd neu aros oddi ar y ffordd yn llwyr tra bydd pobl mwy cefnog yn gallu fforddio parhau i deithio fel y mynnant. Mae codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd yn ymosodiad ar ein safon byw, ein rhyddid i ddewis a’n

rhyddid i deithio a bydd yn arwain pobl i ymateb yn erbyn y gwleidyddion sy'n gyfrifol yn y blwch pleidleisio.'

'Mae'r Bil mor amwys, nid yw'n dweud wrthym beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Maen nhw'n dweud nad oes ganddyn nhw gynlluniau i gyflwyno tâl ond rydyn ni'n gwybod y byddan nhw'n gwneud hynny. Mae'r Bil hwn yn golygu y gallant wneud hyn heb orfod ymgynghori â ni, y cyhoedd. Mae hynny'n anfoesegol. Gwnaethom ni ddim pleidleisio dros hyn felly mae'n RHAID iddyn nhw ymgynghori. Fel arall, byddwn ni'n gweld y problemau sy'n digwydd yn Lloegr yn digwydd fan hyn.'